

Cyngor Wreccsam

Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Cynnwys

Cyflwyniad

Adran 1 Crynodeb gweithredol

Adran 2 Nodi trefniadau llywodraethu allweddol

2.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu

2.2 Trosolwg o effaith Covid-19 ac addasiadau i'n trefniadau llywodraethu

Adran 3 Gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

3.1 Effeithiolrwydd y broses sicrwydd sy'n sail i'r broses werthuso

3.2 Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu wrth gefnogi cyflawni deilliannau cynaliadwy a chyflawni'r 7 egwyddor llywodraethu da (A-G) a nodi materion llywodraethu sylweddol

Adran 4 Atebolrwydd a Chynlluniau Gweithredu

4.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion arwyddocaol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn flaenorol

4.2 Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â materion llywodraethu arwyddocaol

Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) hwn yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system reolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn, a chynnwys datganiad yn adrodd ar yr adolygiad gyda'i Ddatganiad o Gyfrifon cyhoeddedig. Felly, mae'r DLIB yn cyflwyno asesiad o'r graddau y mae'r cyngor, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu, sut y mae wedi monitro a gwerthuso hyn yn ystod y flwyddyn, ac a yw ei drefniadau'n parhau'n addas i'r diben.

Adran 1 – Crynodeb Gweithredol

Mae llywodraethu corfforaethol yn ymwneud â'r prosesau y mae sefydliadau fel y cyngor yn cael eu cyfeirio, eu rheoli, eu harwain a'u dwyn i gyfrif drwyddynt. Mae hefyd yn ymwneud â diwylliant a gwerthoedd – y ffordd y mae aelodau a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion llywodraethu da fel y nodwyd yn 'Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016' – gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir, mewn ffordd sy'n amserol, yn gynhwysol, yn agored, yn onest ac yn atebol. Mae'n cydnabod bod dyletswydd arno i sefydlu trefniadau cadarn a phriodol ar gyfer llywodraethu ei faterion ac mae wedi ymrwymo i adolygu ei drefniadau llywodraethu a gwella llywodraethu'n barhaus ar draws y cyngor cyfan.

Mae'r pandemig a'r ymateb brys wedi golygu bod y cyngor wedi wynebu'r flwyddyn anoddaf yn ei hanes - mae'r adolygiad o'n trefniadau llywodraethu wedi dangos ein bod wedi parhau i ganolbwyntio ar ein hamcanion a gwneud cynnydd arnynt, ac wedi parhau i fonitro ac addasu ein trefniadau llywodraethu i sicrhau ein bod bob amser yn parhau i wneud y pethau cywir, yn y ffordd cywir.

Ein hasesiad yw, tra bod meysydd llywodraethu sydd wedi cael eu heffeithio gan yr angen i ymateb i'r argyfwng gan arwain at gyfyngiadau i'n lefelau sicrwydd arferol (yn enwedig y sicrwydd a ddarparwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol), yn gyffredinol mae ein trefniadau llywodraethu wedi aros yn addas i'r diben yng nghydestun y pandemig. Tra ei bod yn anochel bod newidiadau wedi bod yn y ffordd rydym yn gweithio a'r gwasanaethau yr ydym wedi gallu eu darparu yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cyngor wedi cynnal ei sefydlogrwydd a'i ffocws ar gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Wrth i ni symud i mewn i 2021-22, mae'r trefniadau'n parhau'n addas i'r diben, ac mae'r cyngor mewn sefyllfa dda i symud allan o ymateb i adferiad rhanbarthol a lleol mewn ffordd gynaliadwy a deinamig.

Mae'r asesiad hwn, a osodwyd yng nghydestun yr heriau a'r newidiadau, gan gynnwys effaith barhaus Covid-19, yn golygu ein bod wedi nodi mai ein materion arwyddocaol ar gyfer 2021-22 yw parhau i wella gwasanaethau plant ac addysg uwchradd a sicrhau bod y cyngor fel sefydliad yn wydn. Bydd y meysydd hyn yn parhau i gael eu monitro gan ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth a'n Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn cael eu hadrodd yn ein hadolygiad blynyddol nesaf.

Ian Bancroft

Prif Weithredwr (Mai 2021)

Y Cyng. Mark Pritchard

Arweinydd (Mai 2021)

Adran 2 – Nodi trefniadau llywodraethu allweddol

2.1 Disgrifiad o'n trefniadau llywodraethu

Mae [Cod Llywodraethu](#)’r cyngor yn nodi pwysigrwydd llywodraethu corfforaethol da i'r cyngor ac yn nodi ein fframwaith llywodraethu ein hunain. Mae'n seiliedig ar y 7 'egwyddor graidd' a nodwyd yn 'Fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol 2016' sydd wedi eu cynllunio i ategu llywodraethu pob corff yn y sector cyhoeddus.

Cod Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gwneir ein hymrwymiad i lywodraethu da ar draws yr egwyddorion craidd canlynol:

- A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith.
- B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.
- C. Diffinio canlyniadau o ran buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.
- D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.
- E. Datblygu capasiti'r Cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.
- F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus.
- G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Mae ein cod yn nodi'n fanwl y trefniadau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cadw at yr egwyddorion craidd hyn. Mae'n nodi'r systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r cyngor, a thrwyddynt y mae'n atebol i'r gymuned, ac yn ymgysylltu ac yn ei harwain. Mae hefyd yn cynnwys ein gwerthoedd a'n diwylliant.

Ar draws y cyngor, mae amrywiaeth o gyrff a strwythurau sy'n cyflawni rôl bwysig o ran datblygu a chynnal y fframwaith llywodraethu.

Cyfrannwr	Rôl
Cyngor	Pob un o'r 52 Aelod Etholedig. Yn cymeradwyo Cynllun y Cyngor. Yn cytuno ar y Cyfansoddiad, polisi a'r fframweithiau ariannol.
Bwrdd Gweithredol	Prif gorff gwneud penderfyniadau'r Cyngor

Cyfrannwr	Rôl
	Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Arweiniol sy'n gyfrifol am bortffolios penodol
Swyddogion Llywodraethu Allweddol	Mae'r Cyfansoddiad yn nodi swyddogaethau swyddogion llywodraethu allweddol, gan gynnwys swyddi statudol 'Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig' (Prif Weithredwr), 'Swyddog Monitro' (Prif Swyddog – Llywodraethu a Chwsmeriaid) a 'Swyddog Adran 151' (Prif Swyddog – Cyllid a TGCh) ac mae'n esbonio rôl y swyddogion hyn o ran sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a hefyd rhoi cyngor i Aelodau, swyddogion a phwyllgorau ar faterion rheoli staff, a materion ariannol, cyfreithiol a llywodraethu moesegol.
Byrddau Blaenoriaeth	Canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r cyngor fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor Adrodd i aelodau etholedig drwy drefniadau adrodd ar berfformiad corfforaethol
Pwyllgor Safonau	Hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan aelodau etholedig a chyfetholedig a monitro gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau
Pwyllgorau Craffu	Yn cynnwys aelodau etholedig anweithredol Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y cyngor a'r Bwrdd Gweithredol. Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus a phartneriaethau eraill fel y bo'n briodol
Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Rheolwyr	Yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu fframwaith llywodraethu, risg a rheoli'r cyngor Cyfrannu i reolaeth gorfforaethol a llywodraethu effeithiol y cyngor
Grŵp Swyddogion Llywodraethu	Adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu Yn atebol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth
Archwilio Mewnol	Rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu Darparu rhaglen o archwiliadau sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gwrth-dwyll ac ymchwilio Nodi meysydd i'w gwella wrth reoli risg Yn atebol i'r Prif Swyddog Cyllid a TGCh a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	Pwyllgor statudol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol ar amgylchedd rheolaeth fewnol y cyngor Yn cytuno ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol Goruchwylio annibyniaeth ac effeithiolrwydd yr Archwiliad Mewnol Monitro effeithiolrwydd trefniadau gwerth am arian

Cyfrannwr	Rôl
	Yn ystyried effeithiolrwydd rheoli risg, gan gynnwys risgiau llwgrwobrwyo, twyll a llygredd Yn ystyried adroddiadau archwilio, arolygu a rheoleiddwyr allanol
Archwilio, rheoleiddio ac arolygu allanol	Sicrwydd allanol ac annibynnol ynghylch datganiadau ariannol y cyngor a threfniadau sydd ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau i gyflawni canlyniadau a chyfrifoldebau statudol datganedig y cyngor.

2.2 Trosolwg o effaith Covid-19 ac addasiadau i'n trefniadau llywodraethu

Teimlwyd effaith y pandemig Covid-19 ar draws y cyngor – mae ymateb i'r argyfwng parhaus a digynsail hwn wedi gallu effeithio ar bob agwedd ar bolisi ac arfer y cyngor, gan gynnwys ffocws ein blaenoriaethau gwella a'r holl gynlluniau partneriaeth a gwasanaeth eraill, yn ogystal â'r ffordd rydym yn cynnal busnes a'r gwasanaethau y gallwn eu darparu.

O ran yr effaith ar ein trefniadau llywodraethu, mae hyn wedi cynnwys:

- Addasiadau i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio a threfniadau brys;
- Newidiadau i weithgareddau llywodraethu a sicrwydd 'busnes fel arfer'; a
- Newidiadau tymor hwy i flaenoriaethau, rhaglenni, strategaethau a chynlluniau.

Mae'r newidiadau hyn wedi bod yn adweithiol, heb eu cynllunio a gallent newid ymhellach. Ar ddechrau'r flwyddyn, cydnabuwyd bod effaith yr argyfwng yn fater llywodraethu arwyddocaol, ac o ganlyniad nodwyd bod hyn yn fater pwysig ar gyfer gweithredu yn DLIB 2020. Cafodd hyn ei arwain a'i fonitro gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) ac fe adroddwyd arno i'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio (gweler Adran 4). Gweithredodd y Grŵp Swyddogion Llywodraethu, sy'n monitro cydymffurfiaeth â'n fframwaith llywodraethu a'n cynnydd gyda chamau gweithredu DLIB, yn ôl yr arfer, ac adroddodd fel y bwriadwyd i'r UDA a'r Pwyllgor Archwilio. Effeithiwyd yn andwyol ar sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol gan Covid-19 – oedi mewn arolygu a rheoleiddio allanol, lleihau capasiti craffu, ac yn fwyaf arwyddocaol yr effaith ar effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol, a arweiniodd at gyfyngiad o ran cwmpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae'r materion hyn wedi eu datrys wrth symud ymlaen i 2021-22.

Mae [Cynllun y Cyngor \(2020-2023\)](#) yn ddogfen lywodraethu allweddol sy'n nodi'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau gwella fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, ac yn esbonio sut y bydd ein gweithgareddau a'n rhaglenni yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Nodau Llesiant y Fwrdeistref Sirol a Chymru. Ar ddechrau'r pandemig, roedd y gwaith o baratoi'r Cynllun yn mynd rhagddo'n dda. Wedi ei drefnu'n wreiddiol i'w gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai, gohiriwyd hyn, nid yn unig i ganiatáu i ni ganolbwyntio adnoddau ar yr ymateb brys, ond i ganiatáu i

Fyrddau Blaenoriaeth ac aelodau etholedig adolygu (a diwygio lle bo angen) y camau gweithredu a'r cerrig milltir drafft yn chwe amcan Cynllun y Cyngor ochr yn ochr â'r cynlluniau adfer a oedd yn dod i'r amlwg. Roedd hyn yn sicrhau y byddai Cynllun y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i dargedu gwelliannau ac alinio adnoddau â'r cynllunio adfer. Cytunwyd ar Gynllun y Cyngor (2020-23) gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2020, ond ychydig iawn oedd effaith yr oedi hwn – roedd y chwe blaenoriaeth wedi eu cynnwys fel blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn yng Nghynllun y Cyngor (2019-22) oedd yn golygu bod gwasanaethau eisoes yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau ac roedd trefniadau llywodraethu eisoes wedi eu sefydlu.

Defnyddiodd y cyngor ei drefniadau cynllunio at argyfwng ym mis Mawrth 2020 a thrwy gydol y flwyddyn, ag eithrio cyfnod byr ym mis Medi, mae'r gweithlu wedi gweithredu o gartref lle bo'n bosibl yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gwnaed penderfyniadau am wasanaethau yn unol â deddfwriaeth a chyfyngiadau cenedlaethol: yn ystod gwanwyn a haf 2020 darparodd y cyngor wasanaethau hanfodol yn unig, gyda rhai o'r penderfyniadau hyn yn effeithio ar lywodraethu 'busnes fel arfer' (y manylir arnynt yn Adran 3). Ehangwyd y gwasanaethau a ddarperir yn gyflym iawn drwy weithio gartref fel bod ystod lawn bron o wasanaethau (ag eithrio mynediad cyhoeddus i adeiladau'r cyngor) wedi ei darparu ers hydref a gaeaf 2020-21.

Mae Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ein gweithlu – o ran ffyrdd newydd o weithio a chapasiti. Yn ogystal â rheoli a chydlynu'r ymateb brys yn barhaus, mae'r gweithlu wedi gorfod addasu'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau i gydymffurfio â chyfyngiadau Covid-19, yn ogystal â chynnydd mewn meysydd fel gweinyddu grantiau (grantiau brys i fusnesau bach, gweithwyr llawrydd a busnesau bu'n rhaid iddynt gau, ynghyd â thâl salwch statudol/grantiau Hunan-Ynysu, taliadau i'n gweithwyr a grantiau ar gyfer llifogydd) a chyflwyno gwasanaethau newydd fel Profi, Olrhain a Diogelu.

Mae'r cyngor wedi defnyddio'r dysgu o'r profiadau hyn fel cyfle i newid yn gadarnhaol ac yn ffordd o ddatgloi potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol, gan gyflymu ein rhaglen 'Ffyrdd Modern o Weithio'. Mae TGCh ac atebion digidol wedi eu datblygu'n gyflym i gefnogi trefniadau gweithio newydd ac mae'r cyngor wedi cytuno ar gyfres o egwyddorion i lywio ein ffordd o weithio yn y dyfodol, a fydd, yn fras, yn cynnwys tri arddull gweithio – swyddfa, gweithio gartref a safle.

Roedd atal cyfarfodydd wyneb yn wyneb o fis Mawrth 2020 yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r Pwerau Brys yn y Cyfansoddiad, ac yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau rheoleiddio wrth iddynt ailddechrau busnes.

Adroddwyd am drefniadau llywodraethu ar gyfer modelau adfer lleol, is-ranbarthol a chenedlaethol i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Mehefin 2020.

Gwnaed cryn ymdrech i gefnogi swyddogion ac aelodau etholedig i baratoi ar gyfer cyflwyno cyfarfodydd rhithwir. Galluogodd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 Llywodraeth Cymru gyflwyno cyfarfodydd rhithwir a chyflwynwyd calendr blaenoriaethol o gyfarfodydd rhithwir o 28

Mai 2020. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu rheoli'n dda, yn agored ac yn dryloyw: mae recordiadau o'r holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn gyhoeddus wedi eu llwytho i lyfrgell y gweddarllediad, gyda phresenoldeb o bell yn cael ei hwyluso ar gyfer y wasg ac arsylwyr / cyfranogwyr cyhoeddus yn yr un modd o 28 Mai. Dechreuodd ffrydio byw ar 11 Tachwedd, ac roedd y cyngor o flaen llawer o awdurdodau eraill o ran cyhoeddi cyfarfodydd wedi eu recordio a'u ffrydio'n fyw.

Tra roedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi eu hatal, cynhaliwyd adroddiadau sefyllfa wythnosol, a oedd yn cynnwys nodi a rheoli risgiau, a sesiynau briffio aelodau. Roedd rhestr lai o gyfarfodydd pwyllgorau craffu ar waith rhwng mis Medi a Chwefror, gyda rhaglenni gwaith yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r blaenoriaethau ymateb ac adfer yn ystod y cyfnod hwn, a chefnogwyd Cadeiryddion Craffu i gysylltu'n uniongyrchol â Phrif Swyddogion i ddarparu cyfrwng ar gyfer cwestiynau a sicrwydd aelodau'r pwyllgor.

Mae'r Awdurdod wedi gweithio'n agos gydag Archwilio Cymru, o ran prosiect Dysgu-Covid sector cyhoeddus Archwilio Cymru ac hefyd o ran mynd ati i geisio sicrwydd ar ein trefniadau – roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd, cyfnewid gwybodaeth a goruchwyllo ein hymateb i'r pendemig ac adferiad yn y dyfodol. Cyhoeddodd Archwilio Cymru [lythyr ymateb ac adfer Sicrwydd Dros Dro - Covid-19](#) ym mis Awst 2020 a oedd yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â'n trefniadau, gan ddweud bod Archwilio Cymru wedi ei 'sicrhau bod adferiad y cyngor o effaith y pandemig wedi elwa o ymgysylltu rhagweithiol ar lefel rhanbarthol a lleol'; 'mae prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r cyngor wedi dangos arweinyddiaeth gyfunol gref a chyson'; ac 'mae dull y cyngor o adfer wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei ystyried yn dda.'

Ceir asesiad o effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu yn ystod 2020-21 mewn perthynas â phob un o'r 7 egwyddor llywodraethu da yn Adran 3.

Adran 3 – Gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

Mae'n ofynnol i'r cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y trefniadau sydd ganddo ar waith i gyflawni pob un o'r egwyddorion llywodraethu da a chefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau cynaliadwy. Wrth gynnal yr adolygiad, mae'r cyngor yn ystyried sicrwydd o amrywiaeth o ffynonellau, ac mae'r rhain wedi eu crynhoi ym mharagraff 3.1 isod.

Mae'r adolygiad blynyddol wedi ei strwythuro o amgylch egwyddorion craidd llywodraethu da, gan ystyried datblygiadau yn ystod y flwyddyn, nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer gwelliannau, ac archwilio lle mae Covid-19 wedi effeithio ar ein gweithgareddau a sicrwydd llywodraethu 'busnes fel arfer'. Lle y bo'n bosibl, mae'n cynnig asesiad o arwyddocâd yr effaith hon, gan ystyried unrhyw addasiadau a wnaed gennym a pha mor effeithiol fu'r rhain o ran sicrhau ein bod yn parhau i gadw at egwyddorion llywodraethu da. Defnyddiwyd yr adolygiad i lywio'r asesiad cyffredinol o'n trefniadau llywodraethu ac i nodi'r materion llywodraethu arwyddocaol ar gyfer 2021-22. Nodir y casgliadau a'r materion arwyddocaol ym mharagraff 3.2 isod.

Nid oes diffiniad swyddogol CIPFA o'r hyn sy'n 'fater arwyddocaol', fodd bynnag yng nghyd-destun Cyngor Wrecsam, credwn y gellid diffinio mater arwyddocaol fel a ganlyn:

- Rhwymedigaethau newydd sy'n ofynnol gan y sefydliad / heriau newydd a achoswyd gan effaith y pandemig, adfer busnes fel gweithgareddau arferol;
- Materion sy'n taseilio neu'n bygwth cyflawni amcanion sefydliadol;
- Methiant sylweddol i fodloni egwyddorion (ac is-egwyddorion) llywodraethu da;
- Maes sy'n peri pryder sylweddol i arolygydd, archwiliad allanol neu reoleiddiwr;
- Maes a argymhellir i'w gynnwys gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, un o'r swyddogion statudol, neu fater sydd wedi gofyn am weithredu ffurfiol gan y Prif Swyddog Cyllid neu'r Swyddog Monitro;
- Mater sy'n torri ar draws y sefydliad ac yn gofyn am gydweithrediad i fynd i'r afael ag ef;
- Mater sydd wedi arwain at ddiddordeb sylweddol gan y cyhoedd neu sydd wedi niweidio ein enw da'n ddifrifol; neu,
- Fater sydd wedi gofyn am wyro adnoddau'n sylweddol.

3.1 Effeithiolrwydd y broses sicrwydd sy'n sail i werthuso effeithiolrwydd.

Mae'r canlynol yn rhoi amlinelliad byr o'r ffynonellau sicrwydd allweddol a ystyriwyd yn yr adolygiad a'u heffeithiolrwydd yn ystod 2020-21. Cyfeirir at ragor o fanylion mewn perthynas ag egwyddorion penodol yn 3.2 ac adran 4.

Archwilio mewnol a sicrwydd archwilio

Mae archwilio mewnol yn swyddogaeth sicrwydd sy'n ymgymryd â gwaith a fydd yn llywio barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor, gan gynnwys ei holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â chyrff eraill. I wneud hyn, mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn darparu rhaglen o archwiliadau wedi eu trefnu (Cynllun Archwilio) ar asesiad o anghenion sy'n seiliedig ar risg. Yn 2020-21, arweiniodd effaith Covid-19 ar y gallu i gynnal archwiliadau cynlluniedig ac heb eu cynllunio a phwysau staffio tîm cysylltiedig at ddim ond 65% o'r cynllun gwreiddiol a 60% o'r gwaith nas cynlluniwyd yn cael ei gwblhau. Roedd y lefel is o sicrwydd yn arwyddocaol ac arweiniodd i farn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol fod yn 'gyfyngedig' o ran cwmpas, a rhoddwyd hysbysiad cynnar o hyn i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2020:

"Gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r rheolwyr bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor yn y meysydd a archwiliwyd yn ddigonol ac yn effeithiol ar y cyfan o ran cyflawni amcanion y cyngor. Fodd bynnag, rhaid i'r farn eithrio'r meysydd canlynol gan nad oes digon o sicrwydd ar gael i gynnig sicrwydd rhesymol:

- (i) Addysg ac Ymyrraeth Gynnar – lle na chwblhawyd unrhyw archwiliadau penodol o ysgolion yn ystod y flwyddyn (cafodd saith o un ar ddeg o archwiliadau a gynlluniwyd ar gyfer yr adran hon naill ai eu canslo neu eu gohirio); a
- (ii) Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant – lle na ellid cwblhau yn ystod y flwyddyn tri o'r pedwar archwiliad arfaethedig yn yr adran hon, yn ogystal â dau archwiliad arall a gariwyd ymlaen o 2019-20."

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (*diwygiwyd teitl y Pwyllgor Archwilio a'r cylch gorchwyl ym mis Mai 2021 i adlewyrchu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*)

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu, gan ddarparu ffocws lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r pwyllgor fel y trefnwyd ac adolygodd ei raglen waith yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cylch gorchwyl y pwyllgor yn cael ei gyflawni. Adroddwyd i'r pwyllgor am hysbysiad cynnar y Pennaeth Archwilio Mewnol o gyfyngiad o ran cwmpas ei farn flynyddol ym mis Rhagfyr. Mae'r pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch gwydnwch y gwasanaeth archwilio mewnol (lefelau staffio) a'r effaith ar sicrwydd annibynnol.

Archwilio ac arolygu allanol

Cafodd gwaith archwilio ac arolygu a oedd wedi'i gynllunio ei oedi oherwydd Covid-19. Roedd [Cynllun Archwilio 2020](#) Archwilio Cymru yn cynnwys rhaglen o waith archwilio perfformiad mewn cysylltiad â gwerth am arian, gwelliant parhaus a datblygu cynaliadwy. Cafodd rhywfaint o'r gwaith hwn, yn enwedig gwaith ar gynaliadwyedd ariannol a chyfnerthu a chyflymu gwelliant, ei oedi oherwydd Covid-19 ac adroddwyd arno ym mis Gorffennaf 2021. Disgwylir o hyd am adolygiad o gomisiynu cartrefi preswyl a nyrsio gogledd Cymru. Cafodd yr adolygiad ar Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei ddisodli gan waith dysgu a chefnogi Covid-19 ym mhob awdurdod. Anfonodd Archwilio Cymru [lythyr Sicrwydd Dros Dro - ymateb ac adfer Covid-19](#) ym mis Awst 2020 a oedd yn darparu sicrwydd cadarnhaol mewn perthynas â'n trefniadau. Nid oedd Crynodeb Archwiliad Blynyddol Archwilio Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021) yn cynnwys unrhyw argymhellion, a chyhoeddwyd barn gywir a theg ddiamedd ar ein datganiadau ariannol ar gyfer 2019-20.

Ataliodd Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yr holl waith arolygu ym mis Mawrth 2020, ac achosodd hyn oedi yng ngwaith y gynhadledd gwella dilynol ar adroddiad Estyn 2019 ar wasanaethau addysg y cyngor, yn enwedig dilyniant y Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygiad. Cynhaliwyd y gynhadledd wella ym [mis Tachwedd 2020](#) a chanfu fod gan yr awdurdod lleol ddealltwriaeth drylwyr o faterion ac mae'n datblygu cynlluniau priodol i wneud cynnydd arnynt. Dechreuodd ymweliadau Arolygwyr Awdurdod Lleol ym mis Rhagfyr. Cynhaliwyd adolygiad thematig o waith a wnaed ar draws yr awdurdod i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig ym mis Tachwedd 2020.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad llawn o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym [mis Hydref 2020](#) ac yna ymweliad monitro ym mis Mai 2021. Roedd llythyr canfyddiadau'r arolygiad yn adlewyrchu'r newid arwyddocaol a wnaed mewn diwylliant yn y gwasanaethau plant ac yn nodi rhagolygon cadarnhaol ar gyfer gwelliant parhaus, tra'n cydnabod bod gwelliannau parhaus i arferion yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar draws y gwasanaeth. Ni chanfu'r ymweliad monitro unrhyw bryderon diogelu.

Aeth yr adolygiad sicrwydd ac asesu risg blynyddol (Archwilio Cymru, Estyn ac AGC) yn ei flaen ym mis Ionawr 2021 a helpodd i lywio'r broses o nodi materion arwyddocaol ar gyfer 2021-22.

Adroddwyd crynodeb o adroddiadau rheoleiddio allanol i'r Pwyllgor Archwilio ym mis [Mai 2020](#) a mis [Chwefror 2021](#).

Cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol

Disgwylir i awdurdodau lleol gydymffurfio'n llawn â Chod Rheoli Ariannol (RhA) CIPFA yn 2021-22 – a'r nod yw ymgorffori safonau rheoli ariannol gwell. Mae goblygiadau o ran adnoddau Covid-19 mewn perthynas ag agweddau ariannol yr ymateb cenedlaethol wedi golygu nad oes adolygiad o'n cydymffurfiaeth a nodi unrhyw gamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen wedi ei gynnal yn ystod 2020-21. Mae CIPFA wedi cydnabod effaith y pandemig ac wedi dod i'r casgliad, er mai 2021-22 fydd y flwyddyn gyntaf o gydymffurfio, y gall awdurdodau wneud hynny o fewn fframwaith mwy hyblyg a allai olygu dangos cyfeiriad teithio yn hytrach na chydymffurfio'n llawn.

Sicrwydd y Prif Swyddog

Mae prif Swyddogion yn cynnal asesiad o lywodraethu o fewn eu gwasanaethau bob blwyddyn ac yn cwblhau Datganiad Sicrwydd Rheolaeth Fewnol (DSRhF) i nodi unrhyw faterion llywodraethu naill ai o fewn gwasanaeth penodol neu ar draws y

sefydliad y mae angen mynd i'r afael â hwy. Cynhwysir manylion yn adran 3.2 yn ôl egwyddor llywodraethu. Bydd yr DSRhF yn cael ei adolygu yn ystod 2021-22 i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Adolygiad parhaus o effeithiolrwydd y trefniadau – Grŵp Swyddogion Llywodraethu

Mae'r cyngor wedi ymrwmo i wella llywodraethu'n barhaus ar draws y cyngor cyfan, drwy broses o werthuso ac adolygu parhaus, gan arwain at adolygiad blynyddol sy'n llywio'r DLIB. Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion sy'n arwain ar feysydd allweddol y fframwaith llywodraethu, yn ogystal â chynrychiolwyr gwasanaethau, yn cyfarfod bob chwarter i arwain ar y gwaith hwn. Mae'n adolygu'r trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd yn ôl egwyddor graidd, yn nodi meysydd i'w gwella, ac yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd gyda chymau gweithredu'r DLIB. Atgyfnerthwyd y [Cylch Gorchwyl](#) yn 2020-21 i sicrhau cyfrifoldebau adrodd clir i'r UDA a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarteri 2 a 4. Mae'r Grŵp Swyddogion Llywodraethu yn cyfrannu'n sylweddol at yr adolygiad blynyddol a pharatoi'r DLIB.

Rheoli Risg

Roedd rheoli risg yn gweithredu fel y bwriadwyd yn ystod 2020-21. Diweddarwyd cofrestrau risg gyda risgiau penodol Covid-19, ac roedd 'prif' risgiau (corfforaethol) wedi eu hymgorffori mewn cofrestrau risg gwasanaeth. Adroddir ar gofrestrau risg i'r UDA a'r Pwyllgor Archwilio yn [chwarter 2 \(Rhaifyr 2020\)](#) a chwarter 4 (a drefnwyd ym mis Gorffennaf 2021). Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch gweithredu rheoli risg.

Mae Byrddau Blaenoriaeth y cyngor hefyd wedi nodi'r risgiau hynny o fewn cofrestrau risg gwasanaethau sy'n ymwneud â chyflawni blaenoriaethau'r cyngor, er mwyn gallu rheoli'r rhain.

3.2 Gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu wrth gefnogi cyflawni canlyniadau cynaliadwy a chyflawni egwyddorion llywodraethu da, a nodi materion llywodraethu arwyddocaol.

Mae'r adran hon yn nodi pob un o'r 7 egwyddor llywodraethu da a'u diffiniadau ategol (A-G), ynghyd ag asesu ein heffeithiolrwydd ac unrhyw faterion arwyddocaol a nodwyd i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu DLIB.

Egwyddor A: Ymddwyn gydag uniondeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.

“Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am faint maen nhw'n ei wario, ond hefyd am sut maen nhw'n defnyddio'r adnoddau o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac am y canlyniadau y maent yn eu cyflawni. Mae ganddynt y cyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu er budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, yn gyffredinol, y gallant ddangos priodoldeb eu holl weithredoedd ar draws yr holl weithgareddau a bod ganddynt fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu rheolaeth y gyfraith.”

Asesiad:

Ymatebodd y cyngor yn dda i effaith cyfyngiadau cenedlaethol ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac roedd ei benderfyniadau'n cydymffurfio â Chyfansoddiad a deddfwriaeth y cyngor. Mae gan y cyngor adnoddau a phrosesau da ar waith i gefnogi safonau ymddygiad uchel, safonau moesegol a glynu wrth reol y gyfraith – ond mae angen iddo sicrhau bod cyfnodau ymsefydlu a hyfforddiant yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Cadernid sefydliadol – I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Egwyddor B: Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid.

“Mae llywodraeth leol yn cael ei rhedeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.”

Asesiad:

Perfformiodd y cyngor yn dda yn erbyn yr egwyddor hon yng nghyd-destun y pandemig. Roedd effaith fwyaf arwyddocaol Covid-19 yn ymwneud â'r swyddogaeth graffu llai, ond mae hyn wedi ei ddatrys ar gyfer 2021-22. Mae heriau a chyfleoedd newydd o ran gweithio gyda phartneriaid ar lefel rhanbarthol.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Cadernid sefydliadol – I sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol ac amgylcheddol.

“Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylent fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo diben y sefydliad, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir ac aros o fewn terfynau awdurdod a phwrpas. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac wrth gydbwysu gofynion sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau cyfyngedig.”

Asesiad:

Mae'r cyngor wedi nodi ei ganlyniadau llesiant a gwella ac mae'n delio'n effeithiol â diffinio canlyniadau adfer ar ôl Covid ar lefel leol, is-ranbarthol a rhanbarthol.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Dim

Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

“Mae llywodraeth leol yn cyflawni ei chanlyniadau arfaethedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol (camau gweithredu). Mae pennu'r cymysgedd cywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae'n rhaid i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn i sicrhau y gellir cyflawni eu canlyniadau diffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r cyfnewidiad orau rhwng y gwahanol fathau o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau'n aml er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.”

Asesiad:

Yn gyffredinol, perfformiodd y cyngor yn dda mewn perthynas â'r egwyddor hon, yn enwedig adolygu ei drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol i sicrhau bod ymyriadau'n cael eu nodi a'u monitro. Tra bod Covid-19 wedi effeithio'n andwyol ar rai elfennau o'r egwyddor hon, megis y swyddogaeth graffu, nid oes tystiolaeth o unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ganlyniadau, ac mae'r cyngor mewn sefyllfa dda wrth symud ymlaen. Bydd angen i'r cyngor ganolbwyntio ar baratoadau i gynnal yr hunanasesiad blynyddol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Ysgolion uwchradd – gwella deilliannau mewn ysgolion uwchradd yn unol ag argymhellion Estyn (R1-R4)
- Gwasanaethau plant – gwelliannau sy'n ofynnol ym meysydd risg ac ansawdd gwaith achos.
- Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Egwyddor E: Datblygu capasiti'r cyngor, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo.

“Rhaid i'r cyngor gael strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau, y cymwysterau a'r meddylfryd cywir i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid iddo sicrhau fod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a gwneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolaeth y gallu gweithredol i'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae'r cyngor yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu capasiti'r cyngor, yn ogystal â sgiliau a phrofiad aelodau unigol o staff. Bydd arweinyddiaeth yn cael ei chryfhau gan gyfranogiad pobl

o sawl gwahanol math o gefndir sy'n adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau.”

Asesiad:

Roedd y cyngor eisoes wedi cydnabod yr angen i sicrhau cyngor modern a gwydn cyn Covid-19, ac mae wedi cyflymu ei raglen o ffyrdd modern o weithio nid yn unig i fodloni'r gofynion hyn, ond hefyd i ddefnyddio dysgu i ddatgloi potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Mae cynllunio'r gweithle ar y gweill i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyheadau'r cyngor a bydd hyn yn allweddol i gadernid y cyngor a'r cynllunio adferiad sydd ar y gweill ar lefel lleol, is-ranbarthol a rhanbarthol i gefnogi meithrin capasiti cymunedol. Mae angen monitro hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau etholedig (presennol a'r dyfodol) a llywodraethwyr ysgol i sicrhau eu bod yn effeithiol, ac mae angen i'r cyngor sicrhau bod ymsefydlu a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Cadernid sefydliadol – Gweithlu sy'n gynaliadwy ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau y gallu i adfer ar ôl Covid.
- Cadernid sefydliadol – Cefnogi aelodau etholedig i gyfrannu at lwyddiant y sefydliad

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

“Mae angen i'r cyngor sicrhau ei fod wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gynlluniwyd yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig o'r system hon ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Mae'n hanfodol bod gan y cyngor ddiwylliant a strwythur ar gyfer craffu fel rhan allweddol o'r broses o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisiau ac adolygu.”

Asesiad:

Parhaodd llawer o'r amgylchedd rheolaeth fewnol i weithio'n dda a hyd yn oed gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn (rheoli risg, rheoli perfformiad), ond lleihawyd cadernid y rheolaethau mewn perthynas â chraffu ac archwilio mewnol yn sylweddol oherwydd capasiti ac anawsterau ymarferol o ganlyniad i Covid-19. Mae'r materion hyn wedi eu datrys wrth symud ymlaen i 2021-22, fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod yr angen am wasanaeth archwilio mewnol gwydn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref i gefnogi perfformiad gweithredol tymor hir a thymor byr wrth symud ymlaen.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Cadernid sefydliadol – Mae arferion Rheoli Ariannol, monitro cyllidebau a gosod cyllidebau yn sicrhau bod y cyngor yn ariannol wydn a deinamig wrth gyflawni'r risgiau ariannol ar ôl Covid.

Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol

“Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig â'r camau a gwblhawyd, ond hefyd ar sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall wrth i'r cyngor gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio mewnol ac allanol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.”

Asesiad:

Cynhaliodd y cyngor dryloywder wrth adrodd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys adroddiadau corfforaethol yn unol ag amserlenni a glynu wrth reolaethau ansawdd ar gyfer adroddiadau, yn ogystal ag adrodd ar effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu a arweiniodd at yr DLIB. Fodd bynnag, effeithiwyd yn andwyol ar sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol gan Covid-19 – oedi cyn arolygu a rheoleiddio allanol, lleihau capasiti craffu, ac yn fwyaf arwyddocaol yr effaith ar effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol, a arweiniodd at gyfyngiad o ran cwmpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Mae'r materion hyn wedi eu datrys wrth symud ymlaen i 2021-22, fodd bynnag, mae'r cyngor yn cydnabod yr angen am wasanaeth archwilio mewnol gwydn, a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref i gefnogi perfformiad gweithredol tymor hir a thymor byr wrth symud ymlaen.

Materion arwyddocaol i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r DLIB:

- Dim

Adran 4 Atebolrwydd a Chynlluniau Gweithredu

4.1 Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion arwyddocaol a nodwyd yn DLIB y flwyddyn flaenorol.

Mater #1 – Sicrhau Seilwaith TGCh

Tra ein bod ni wedi buddsoddi yn ein seilwaith TGCh i sicrhau y gall ddarparu llwyfan cadarn, gwydn a diogel i gefnogi nodau cyngor modern a gwydn, mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar y cynnydd rydym wedi ei wneud ac mae esblygiad parhaus TGCh yn gwneud hyn yn ofyniad parhaus.

Cam y cytunwyd arno: Cytuno ar Strategaeth TGCh a Digidol newydd.

Swyddog Cyfrifol: Prif Swyddog Cyllid a TGCh

Casgliad: Gwnaed cynnydd da yn y maes hwn, sydd wedi ei gyflymu gan effaith y pandemig. Cytunwyd ar Strategaeth TGCh a Digidol newydd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chafodd gymeradwyaeth ffurfiol yn y Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2020. Tra bod gwaith yn mynd rhagddo, mae llywodraethu da ar waith drwy'r Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Blaenoriaeth ac nid oes ofyniad i gynnwys hyn fel mater arwyddocaol yn 2021.

Mater #2 – Addysg Ysgolion Uwchradd

Yn 2019 daeth arolygiad Estyn o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol i'r casgliad bod maint yr her i wella canlyniadau mewn ysgolion uwchradd yn golygu bod Wrecsam yn awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol.

Camau y cytunwyd arnynt:

- (1) Gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygiad (CGA)
- (2) Recriwtio Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar / sicrhau bod gofynion statudol y swydd yn cael eu cyflawni.

Casgliad: Er gwaethaf effaith Covid-19, mae'r awdurdod wedi parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn ac mae Estyn wedi cydnabod hyn yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnal y ffocws hwn yn golygu y bydd hyn yn parhau i fod yn fater arwyddocaol yn 2021.

Mater #3 – Gwasanaethau Plant

Nododd cynadleddau gwella Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a gynhaliwyd yn 2019 a 2020 welliannau sy'n ofynnol ym meysydd risg ac ansawdd gwaith achos.

Cam y cytunwyd arno: Gweithredu'r Cynllun Gwella Carlam

Casgliad: Er gwaethaf effaith Covid-19 ar wasanaethau, mae'r awdurdod wedi parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn ac mae AGC wedi cydnabod hyn yn

gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r angen i gynnal y ffocws hwn yn golygu y bydd hyn yn parhau i fod yn fater arwyddocaol yn 2021.

Mater #4 – Asesu effaith Covid-19 ar ein trefniadau llywodraethu.

Mae angen i ni ystyried effaith pandemig Covid-19 a chanllawiau a deddfwriaeth gysylltiedig y llywodraeth ar ein trefniadau llywodraethu.

Camau y cytunwyd arnynt:

- (1) Ystyried sut y bydd gwasanaethau democrataidd yn cael eu darparu drwy gyfarfodydd rhithwir, ac ati;
- (2) Adolygiad o flaenoriaethau'r cyngor ac adnoddau; a
- (3) Cynhyrchu cynlluniau adfer ar gyfer gwasanaethau.

Casgliad: Ymatebodd y cyngor yn gyflym i ddeddfwriaeth newydd er mwyn sefydlu cyfarfodydd rhithwir a gweithredodd yn unol â gofynion deddfwriaethol a chyfansoddiadol. Mae capasiti cyfarfodydd llawn ar waith erbyn diwedd 2020-21. Cytunwyd ar amcanion llesiant a gwella'r Cyngor. Mae cynllunio adferiad ar y gweill ac fe'i hategir gan drefniadau llywodraethu cadarn. Er y bydd gwaith yn parhau yn y maes hwn, nid yw wedi ei nodi fel mater arwyddocaol ar gyfer 2021-22.

4.2 Cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu arwyddocaol.

Adolygir effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu drwy gydol y flwyddyn, gan arwain at adolygiad blynyddol. Mae'r adolygiad wedi nodi'r canlynol fel materion arwyddocaol y dylid mynd i'r afael â hwy yn 2021-22:

1. Gwella Addysg Uwchradd
2. Gwella Gwasanaethau Plant
3. Cadernid Sefydliadol
 - Ariannol
 - Gweithlu
 - Gwleidyddol

Mae'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn wedi ei nodi isod. Caiff cynnydd ei fonitro bob chwarter gan y Grŵp Swyddogion Llywodraethu yn ystod 2021-22 a'i adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac i'r Pwyllgor Archwilio yn chwarteri 2 a 4 (adolygiad blynyddol).

Cynllun Gweithredu DLIB 2021

Canlyniad 1 Gwella Addysg Uwchradd (Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar)

Gwella canlyniadau mewn ysgolion uwchradd yn unol ag argymhellion Estyn (A1-A4).

Camau Gweithredu

- Ailddiffinio'r meini prawf llwyddiant, y canlyniadau a'r cerrig milltir yn y Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygiad – Cwblhawyd.
- Gweithredu strwythur gwasanaeth diwygiedig – Cwblhawyd.
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar ôl Arolygiad - Mae Arolygydd Cyswllt yr Awdurdod Lleol wedi dechrau ymweld bob tymor ers mis Mai 2021. Bydd Cynhadledd Wella arall yn cael ei threfnu ar gyfer hydref 2021. Bydd Cynhadledd Gwella bellach yn cael ei threfnu ar gyfer hydref 2021.

Canlyniad 2 Gwella Gwasanaethau Plant (Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol)

Gwelliannau sydd eu hangen ym meysydd risg ac ansawdd gwaith achos.

Camau Gweithredu

- Gweithredu'r Cynllun Gwella Carlam er mwyn i'n asesiad o'n gwasanaethau fod yn 'foddhaol' yn arolygiad nesaf AGC - Ymweliad monitro Tachwedd/Rhagfyr 2021. Arolygiad llawn Mai 2022.
- Comisiynu gwerthusiad annibynnol i asesu cynnydd tuag at gyflawni asesiad 'boddhaol' yn Arolygiad AGC ym mis Mai 22 - Gwerthusiad annibynnol o gynnydd c. Ionawr 2022 (yn dilyn Ymweliad Monitro Tachwedd/Rhagfyr 2021).
- Cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu fel ffynhonnell sicrwydd ar gynnydd - Adroddiad interim (Mai) Adroddiad terfynol (Tachwedd).

Canlyniad 3 Cadernid Sefydliadol (Prif Weithredwr)

Galluogi'r sefydliad i symud ymlaen, ar ôl Covid-19, mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn ddeinamig.

Camau Gweithredu

Ariannol (Prif Swyddog Cyllid a TGCh) - Mae arferion Rheoli Ariannol, monitro cyllidebau a gosod cyllidebau yn sicrhau bod y cyngor yn ariannol wydn a deinamig wrth gyflawni'r risgiau ariannol ar ôl Covid.

- Cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol – cwblhau'r adolygiad a nodi camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth – Cwblhawyd.
- Gweithredu camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth â'r Cod - Gorffennaf 2022.
- 1. Sicrhau bod rhaglen ddatblygu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cwmpasu testunau llywodraethu perthnasol a newydd. (Gorffennaf 2022)
- 2. Cwblhau hyfforddiant ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Cyllid er mwyn datblygu ac arfarnu achosion busnes perthnasol. (Gorffennaf 2022)
- 3. Adolygu amseriad monitro cyfalaf gwasanaethau (Mawrth 2022)
- Cipolwg cynnar ar bwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn i aelodau etholedig drwy weithdai ac adroddiadau – Parhaus.

Gweithlu (Gwasanaethau'r Prif Weithredwr / Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol)

Gweithlu sy'n gynaliadwy ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau gallu i adfer ar ôl Covid.

- Lansio proses cynllunio'r gweithlu ar gyfer 2021-22 i gefnogi Prif Swyddogion i gael cynlluniau gweithlu sy'n cynnwys cynlluniau olyniaeth - Dull ac amserlenni blynyddol y cytunwyd arnynt gan yr UDA (14 Mai 2021). Lanswyd ym mis Mai 2021.
- Bwrdd Blaenoriaeth Modern a Gwydn – gweithredu cyfredol Ffyrdd Modern o Weithio tra'n cynnal ymgysylltiad a boddhad gweithwyr (Arolwg Gweithwyr) - Monitro chwarterol gan y Bwrdd Blaenoriaethau Modern a Gwydn. Adrodd chwarter 2 a 4 i'r Bwrdd Gweithredol. Arolwg Gweithwyr Hydref 2021.

Gwleidyddol (Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid)

Sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021; Cefnogir aelodau etholedig i gyfrannu at lwyddiant y sefydliad.

- Gweithredu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - Amrywiol – yn dibynnu ar pryd y daw rheoliadau i rym.
- Adnewyddu strategaeth datblygu aelodau a chefnogi aelodau etholedig (Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) i fonitro ei effeithiolrwydd yn effeithiol - Cyflwyno i'r Cyngor yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022.
- Paratoi ar gyfer Rhaglen Gynefino 2022 ar gyfer cyngor newydd (CLILC a threfniadau lleol) - Mai 2022.